**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

Carolyn Thomas AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

9 Mai 2025

Annwyl Carolyn,

## P-06-1491 Rydym yn mynnu bargen deg i drigolion yr effeithir arnynt gan y cynllun Arbed/y Rhaglen Arbed Ynni Cymunedau

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 3 Ebrill 2025 yn ymwneud â'r ddeiseb uchod a nodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 28 Ebrill. Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cynnal dau ymchwiliad ar y pwnc hwn sef ymchwiliad ar Dlodi Tanwydd a'r Rhaglen Cartrefi Clyd ac ymchwiliad dilynol yn edrych ar Dlodi Tanwydd yng Nghymru.

Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad diweddaraf, sef 'Cynyddu'r gwres cyn 2160: amser i gyflymu'r gwaith o drechu tlodi tanwydd ddydd Llun, 7 Ebrill 2025. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r adroddiad hwn yn fuan iawn.

Ni chawsom unrhyw wybodaeth benodol yn ystod y naill ymchwiliad na'r llall ynghylch y sefyllfa yng Nghaerau. Serch hynny, mae'n bwysig pwysleisio na fyddai wedi bod yn bosibl nac yn briodol i ni ymchwilio i achosion unigol.

Fe wnaethon ddaeth tystiolaeth yn fwy cyffredinol i law a oedd yn tynnu sylw at ddifrod i eiddo a gosodiadau o ansawdd gwael a gafodd rhai perchnogion tai o dan y cynlluniau Arbed blaenorol. Dyna pam y gwnaethom alw am gyfundrefn sicrhau ansawdd llawer mwy cadarn ac addas at y diben ac am wiriadau ôl-osod i gael eu cynnal gan drydydd parti annibynnol yn y dyfodol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i weithredu'n llawn ar gyfer elfen Nyth o'r Rhaglen Cartrefi Clyd newydd. O ganlyniad, dylai'r risg o ailadrodd y profiadau annerbyniol a amlygwyd gan y deisebydd gael ei leihau'n fawr yn y dyfodol.

Roedd yn ddrwg gennym glywed am brofiadau'r deisebwyr, sy'n annerbyniol. Rydym yn mawr obeithio ac yn disgwyl y gellir cyflawni canlyniad cadarnhaol cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Jenny Rathbone

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol